**Eitem: 13**

**Teitl:** Adroddiad Adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu sy'n ofynnol** | I'w cytuno. Darperir yr adroddiad hefyd er gwybodaeth a sicrwydd. |
| **Amseru** | Arferol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r amcanion datblygu allweddol y cytunodd arnynt yn ei Sesiwn Adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd diweddar, a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2024/2025. |
| **Risg** | Fel corff sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i Llais gynnal adolygiad effeithiolrwydd blynyddol y Bwrdd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'n glir ar ei berfformiad fel Bwrdd ac fel sefydliad. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn parhau i ddatblygu a gweithredu mor effeithiol â phosibl. Mae hefyd yn elfen bwysig yn adroddiadau diwedd blwyddyn y sefydliad. |
| **Cyllid** | Bydd rhai goblygiadau ariannol wrth weithredu amcanion datblygu'r Bwrdd a nodwyd. Fodd bynnag, bydd y rhain yn cael eu hasesu a'u gwerthuso'n rheolaidd a'u hariannu o'r cyllidebau presennol. |
| **Amcan y cynllun blynyddol**<br>**Amcan y cynllun strategol**<br>**Amcan y cynllun 100 diwrnod** | Bydd yr adolygiad hwn o effeithiolrwydd y Bwrdd a'r amcanion datblygu y cytunwyd arnynt yn cefnogi cyflawniad amcanion y sefydliad mewn ffordd gynlluniedig ac agored. Bydd hefyd yn ceisio sicrhau bod y Bwrdd a'r sefydliad yn parhau i ddatblygu a chyflawni ei rolau yn effeithlon, yn effeithiol ac yn briodol. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfathrebu** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Yn Fewnol:** ein pobl ☒ |

| | |
|---|---|
| | **Yn Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Yn Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth/Clirio** | Mae'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau neu benderfyniadau blaenorol** | Dyma adolygiad effeithiolrwydd cyntaf y Bwrdd a gwblhawyd gan Llais yn dilyn y flwyddyn lawn gyntaf o weithredu. |
| **Awdur Cyflwyno** | Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd |
| **Dyddiad** | 08-04-2024 |

**Cefndir**

Fel corff sector cyhoeddus, mae'n ofynnol i Llais gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y bwrdd. Cwblhawyd hwn trwy holiadur dienw yn gynnar yn 2024. Rhannwyd y canlyniadau gyda holl aelodau'r Bwrdd a'u trafod mewn cyfarfod ar 28 Chwefror 2024. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod y canfyddiadau a chytuno ar amcanion i wella effeithiolrwydd y Bwrdd ymhellach ar gyfer 2024/2025.

Rhannwyd yr adolygiad yn dri chategori, sef perfformiad, ymgysylltu a chyfansoddiad y bwrdd. Hwyluswyd y sesiwn yn annibynnol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r pwyntiau adborth allweddol o'r trafodaethau ac amcanion datblygu awgrymedig y Bwrdd.

Trafododd y Bwrdd y sgorau a'r allbynnau ysgrifenedig o'r arolwg ac o ganlyniad cytunodd ar y meysydd allweddol lle'r oedd angen i'r Bwrdd wneud newidiadau a datblygiadau pellach. Cytunwyd y byddai'r meysydd hyn i'w gwella yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ond y byddent yn cael eu profi'n llawn trwy ailadrodd yr arolwg effeithiolrwydd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2024/2025. Cydnabuwyd y gallai rhai amcanion fod yn fwy hirdymor ac eraill yn gyflymach i'w cyflawni ac y byddai angen gwneud rhagor o waith ar fframio'r broses o'u gweithredu.

**Amcan 1 - Cefnogaeth y Bwrdd i'r Swyddog Cyfrifyddu**

Bydd y Bwrdd yn cael gwell dealltwriaeth o rôl y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu a'r berthynas â llywodraethu cyffredinol y sefydliad, gyda'r ddwy agwedd yn cefnogi llywodraethu da'r sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys:

- Trefnu hyfforddiant Swyddog Cyfrifyddu sector cyhoeddus ar gyfer y Bwrdd;
- Swyddog Cyfrifyddu i ddarparu diweddariadau yn sesiynau briffio'r Bwrdd ac archwilio sut y gall y Bwrdd gefnogi ymhellach i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

**Amcan 2: Sicrhau bod trafodaethau'r Bwrdd yn strategol ac yn canolbwyntio ar oruchwyliaeth briodol o flaenoriaethau, perfformiad, cynnydd ac effaith**

Bydd y Bwrdd yn cymryd y sicrwydd angenrheidiol gan y Tîm Arwain bod y manylion gweithredol yn cael eu hystyried a'u cynllunio'n briodol ac effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys y sefydliad yn ymgymryd â'r canlynol:

- Datblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- Cynnal archwiliad dwfn ar lefel Pwyllgor i roi sicrwydd ychwanegol i'r Bwrdd, fel y bo'n briodol;
- Egluro rôl y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a chefnogi datblygu sgiliau ei aelodau ymhellach;
- Datblygu canllawiau a darparu cymorth pellach i staff sy'n cyflwyno ar lefel Bwrdd;
- Aelodau'r Bwrdd i fynychu digwyddiadau ymgysylltu i gael sicrwydd pellach ynghylch y gweithgarwch sy'n digwydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd ganddynt rôl llysgenhadol rhanbarthol;
- Datblygu ymhellach y mecanweithiau adrodd a thempledi ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau. Cefnogir hyn gan gytundeb Fframwaith Llywodraethu a Sicrwydd newydd.

**Amcan 3: Cryfhau proses y Bwrdd ar gyfer adnabod a rheoli risg**

Bydd y Bwrdd yn adolygu ei broses yng ngoleuni adolygiad llywodraethu allanol ac adolygiadau archwilio mewnol o ddull rheoli risg Llais. Bydd hyn yn cynnwys:

- Bydd y Bwrdd yn comisiynu adolygiad llawn o'r polisi rheoli risg, y safonau gofynnol ar gyfer rheoli risg a'r adnoddau sefydliadol sydd eu hangen ar gyfer rheoli risg;
- Bydd y Bwrdd yn cymryd golwg gyfannol ar y rolau a'r cyfrifoldebau ar draws Llais (gan gynnwys pwyllgorau) mewn perthynas â rheoli risg;
- Bydd y Bwrdd yn gweithio gyda'r Tîm Arwain i ddatblygu egwyddorion ar gyfer y pynciau y dylid eu trafod yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd.

**Amcan 4: Egluro'r rôl Llysgenhadol a sicrhau bod pob rhanbarth yn cael yr un lefel o oruchwyliaeth a chefnogaeth.**

Bydd y Bwrdd yn adolygu rôl llysgenhadon rhanbarthol ac yn gwneud argymhellion ar sut y gall llysgenhadon gydweithio'n effeithiol â'r Cyfarwyddwyr Rhanbarthol. Bydd hyn yn cynnwys:

- Y rhwydwaith llysgenhadon i gael ei egluro ymhellach (Cyfarwyddwyr Anweithredol a Rhanbarthol) i rannu arfer gorau ac argymhellion ar gyfer gwelliant pellach.
- Bydd y Bwrdd yn adolygu'r proffil rôl llysgenhadol.

**Amcan 5: Cynlluniau Olyniaeth a Datblygu ar gyfer y Bwrdd**

Bydd y Bwrdd yn datblygu ei gynllun olyniaeth a datblygu. Bydd hyn yn cynnwys:

- Y Bwrdd yn ystyried ei fylchau sgiliau proffesiynol ac anghenion datblygu ochr yn ochr â'r rhestr sydd wedi'i chynnwys yng nghynllun gwaith presennol y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn blaenoriaethu ei ddysgu a'i ddatblygiad yn unol â hynny ar gyfer 2024/25;

- Y Cadeirydd yn dechrau trafodaethau cynllunio olyniaeth gydag aelodau y mae eu tymhorau i fod i ddod i ben yn 2024 a 2025. Dylai trafodaethau a phenderfyniadau adlewyrchu unrhyw fylchau sgiliau ar lefel Bwrdd, perfformiad hyd yma a dymuniad aelodau i gael eu hailbenodi.

**Amcan 6: Cael adborth ar hygyrchedd a chynwysoldeb**

Bydd y Bwrdd yn adolygu hygyrchedd a chynwysoldeb cyfarfodydd ac yn gwneud gwelliannau pellach, lle bo angen. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cael adborth gan ein pobl a'r cyhoedd a rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith;
- Prynu offer, lle bo'n briodol, a fydd yn gwella profiad unigolion sy'n ymuno â'r cyfarfodydd o bell.

Pan ofynnwyd iddynt am yr hyn yr oedd pobl fwyaf balch ohono dros y flwyddyn ddiwethaf, soniodd sawl aelod am ddiwylliant a'r ffocws a roddwyd ar ddatblygu

diwylliant o’r cychwyn ochr yn ochr â’r strategaeth. Awgrymwyd er nad oedd hwn yn faes a amlygwyd ar gyfer gwelliant, ei fod yn un y dylai Bwrdd effeithiol barhau i roi sylw iddo.

**Rôl y Bwrdd mewn arwain diwylliant sefydliadol**

Bydd y Bwrdd yn parhau i hyrwyddo ac arddangos diwylliant cydlynol, cyfunol a chydweithredol Llais. Bydd hyn yn cynnwys:

- Y Bwrdd yn egluro ei rôl ac yn nodi cyfleoedd i gyfrannu at y rhaglen newid diwylliannol;
- Y Bwrdd yn arwain trwy esiampl ac yn modelu gwerthoedd ac ymddygiadau priodol;
- Y Bwrdd yn sicrhau bod ei brosesau gwneud penderfyniadau yn rhoi ystyriaeth glir i ddiwylliant a gwerthoedd.

**Manylion**

Gofynnir i'r Bwrdd gytuno ar yr amcanion hyn mewn trosolwg. Unwaith y cytunir arnynt, bydd llinellau amser, aelodau arweiniol a swyddogion yn cael eu nodi. Byddant yn bwrw ymlaen â'r amcanion hyn ac yn nodi cyflawniadau allweddol.

Bydd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro y Bwrdd yn adolygu'r rhaglen waith yn gyson a bydd unrhyw newidiadau perthnasol neu gynigion pellach yn cael eu cytuno gyda'r Bwrdd.